Erthygl 16 – Atal, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad

16.01 Atal y Cyfansoddiad

(a) Cyfyngiad ar ataliad. Ni ellir atal Erthyglau'r Cyfansoddiad hwn. Gall y Rheolau a nodir isod gael eu hatal gan y Cyngor llawn i'r graddau a ganiateir o fewn y rheolau hynny a'r gyfraith**.**

(b) Gweithdrefn atal. Ni chynigir cynnig i atal unrhyw reolau heb rybudd oni bai fod o leiaf hanner cyfanswm yr holl gynghorwyr yn bresennol. Bydd maint a hyd yr ataliad yn gymesur â'r canlyniad sydd i'w sicrhau, gan roi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad a nodir yn Erthygl 1.

(c) Rheolau y gellir eu hatal. Gellir atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn unol ag Erthygl 16.01 i'r graddau a nodir yn Rheol Gweithdrefn y Cyngor 23:

16.02 Dehongli

Ni fydd rheoliad Cadeirydd y Cyngor ynghylch llunio neu gymhwyso'r Cyfansoddiad hwn neu ynghylch unrhyw rai o drafodion y Cyngor, yn cael ei herio mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor. Bydd dehongliad o'r fath yn rhoi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad hwn a gynhwysir yn Erthygl 1.

16.03 Cyhoeddi

(a) Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi copi wedi'i argraffu o'r Cyfansoddiad hwn i bob aelod o'r Awdurdod ar ôl iddo ef/hi dderbyn datganiad ynghylch derbyn swydd gan yr unigolyn hwnnw pan gaiff yr aelod ei ethol i'r Cyngor am y tro cyntaf.

(b) Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor, mewn llyfrgelloedd ac mewn lleoliadau priodol eraill, ac y gall aelodau'r wasg leol a'r cyhoedd eu prynu am ffi resymol.

(c) Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod crynodeb o'r Cyfansoddiad ar gael yn eang o fewn yr ardal a'i fod yn cael ei ddiweddaru fel bo'r gofyn.